

## Tasg 1

# Ffrwydrol!

Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r darn "Ffrwydrol!" ar ôl y cwis.  
Atebwch y cwestiynau hyn:

1. Pam mae'r awdur wedi dewis y teitl, "Ffrwydrol!" ar gyfer y darn?
2. Beth yw pwrpas y darn?
  - a. beirniadu
  - b. cwyno
  - c. perswadio
  - ch. rhoi gwybodaeth
3. Ticiwch **Ffaith** neu **Barn** neu **Ddim yn y darn**.

		Ffaith	Barn	Ddim yn y darn
1.	Roedd Churchill yn brif weinidog effeithiol iawn.			
2.	Roedd e'n dod o Ganolbarth Lloegr.			
3.	Roedd y Natsïaid yn bwriadu ei ladd.			
4.	Cafodd bom ei guddio mewn siocled.			
5.	Gallai'r bom fod wedi lladd Churchill.			
6.	Roedd y bobl oedd yn gwneud y bomiau hyn yn ddeallus iawn.			
7.	Roedd sbiwr o'r Almaen yn mynd i drefnu bod y bom yn ystafell y Cabinet.			
8.	Gwyddonydd oedd yr Arglwydd Victor Rothschild.			
9.	Roedd yr Arglwydd Victor Rothschild yn ddyn gofalus iawn.			
10.	Diolch byth bod y cynllun ddim wedi llwyddo.			

4. Roedd yna gynlluniau i greu bomiau cyfrwys eraill hefyd. Ewch i'r gwefannau hyn i weld rhai ohonyn nhw:

<http://www.dailymail.co.uk/news/article-3254580/Death-chocolate-Fiendish-German-WWII-booby-traps-including-Thermos-flask-bomb-deadly-bangers-mash-exploding-chocolate-bar-meant-Winston-Churchill.html>

<https://www.bbc.com/news/uk-34396939>